# Sut i osgoi lledaenu coronafeirws (COVID-19) yn y gwaith

Wrth weithio, dilynwch y canllawiau hyn i atal lledaeniad coronafeirws a helpu i achub bywydau.

## Cael awyru da

Gwnewch yn siŵr bod awyru da yn eich ardal waith. Agorwch ffenestri os yw'n ddiogel gwneud hynny. Cadwch ddrysau ar agor os gallwch, ond nid drysau tân.

## Beth ddylai eich cyflogwr ei wneud

Dylai cyflogwyr gymryd camau i wella ardaloedd sydd wedi'u hawyru'n wael yn y gweithle.

## Golchwch eich dwylo

Golchwch eich dwylo'n aml gan ddefnyddio sebon a dŵr neu defnyddiwch hylif diheintio dwylo. Ceisiwch beidio â chyffwrdd â'ch wyneb.

### Beth ddylai eich cyflogwr ei wneud

Dylai cyflogwyr ddarparu rhywle i bobl olchi eu dwylo a darparu hylif diheintio dwylo yn y gweithle, lle bo angen.

## Glanhewch eich gweithle

Cynyddu pa mor aml a pha mor drylwyr y caiff eich gweithle ei lanhau, gan gynnwys:

- arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml
- arwynebau nad ydynt fel arfer yn cael eu glanhau

### Beth ddylai eich cyflogwr ei wneud

Dylai cyflogwyr ddarparu cynhyrchion glanhau safonol ar gyfer eich gweithle.

## Cymorth pellach

Mae rhagor o gyngor ar gadw gweithleoedd yn ddiogel rhag COVID ar gael yn:

- Gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch www.hse.gov.uk/coronavirus
- Gwefan Llywodraeth Cymru - gov.wales/coronavirus